**Rhif:** WG53912

# Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl 2026

## Dogfen Ymgynghori

Dyddiad cyhoeddi: 02/02/2026

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 13 Ebrill 2026

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Crown copyright 2026

## Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl** ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd y strategaeth hon yn disodli'r Strategaeth flaenorol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a gyhoeddwyd yn 2021.

Mae'r strategaeth newydd yn nodi blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru a chamau gweithredu i adeiladu ar y cynnydd a wnaed o dan y cynllun blaenorol. Mae'n adlewyrchu gwaith ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid allweddol a wnaed yn ystod 2025.

### Sut i ymateb

Dylech ymateb drwy gwblhau'r ffurflen ar-lein neu drwy gwblhau'r holiadur hwn a'i anfon i:

E-bost: PolisiGofalwyrDi-dal@llyw.cymru

Os ydych yn bwriadu ymateb yn ysgrifenedig, anfonwch ffurflenni wedi'u cwblhau i:

**Tîm Polisi Gofalwyr Di-dâl**

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

### Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae fersiynau Hawdd eu Deall, Iaith Arwyddion Prydain a Chrynodeb i Bobl Ifanc ar gael hefyd.

## Cynnwys


Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) ..... 4

Cyflwyniad ..... 6

Meysydd blaenoriaeth ..... 8

**Asesu effaith y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl** ..... 9

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ..... 9

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ..... 10

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ..... 10

Ymateb i'r Ymgynghoriad ..... 12

Gwybodaeth bersonol ..... 13

**Cyfrinachedd** ..... 13

**Adran Un** ..... 15

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad** ..... 16

**Adran 2** ..... 18

**Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)**

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am sut i arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth fel rhan o'r ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, gall hyn hefyd gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Os bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi ymatebion i ymgynghoriad ymhellach, yna gall trydydd parti achrededig gael ei gomisiynu i gyflawni'r gwaith (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y caiff gwaith o'r fath ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion manwl ar gyfer prosesu a diogelu data personol.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi ar y cyd â'r ymateb. Os na hoffech i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, gwnewch nodyn ysgrifenedig o hyn pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Yna byddwn yn hepgor y manylion hyn cyn cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gall fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i ddatgelu rhywfaint o wybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau cyhoeddedig hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Caiff unrhyw ddata a ddelir fel arall gan Lywodraeth Cymru eu cadw am hyd at dair blynedd.

<u>Eich hawliau</u>

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a ddelir amdanoch a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro unrhyw anghywirdeb yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i'ch data gael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

**Cyflwyniad**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn am y Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl.

**Cefndir**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn 2021, ac yna gynlluniau cyflenwi blynyddol yn nodi'r amcanion ar gyfer y flwyddyn honno. Rydym hefyd wedi cyhoeddi adroddiadau blynyddol yn nodi'r hyn a gyflawnwyd. Mae'r adroddiadau hyn ar gael yma: Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl | LLYW.CYMRU

Cafodd y Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl ei llunio ar y cyd gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl a chyda cefnogaeth ei Grŵp Llywio penodedig. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys gofalwyr di-dâl, Gofalwyr Cymru, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a chynrychiolwyr byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol.

Yn ystod haf 2025, gwnaethom siarad ag amrywiaeth eang o ofalwyr di-dâl a sefydliadau perthnasol. Arweiniodd hyn at nodi'r meysydd blaenoriaeth allweddol, a chamau gweithredu y dywedodd pobl wrthym fyddai fwyaf tebygol o arwain at newid cadarnhaol.

Rydym yn ddiolchgar iawn i bob un o'r gweithwyr proffesiynol hynny a gyfarfu â ni ac a ddarparodd wybodaeth ysgrifenedig. Rydym yn hynod ddiolchgar i bob un o'r gofalwyr di-dâl a oedd yn gallu neilltuo'r amser i siarad â ni.

Gwnaethom siarad â'r canlynol:

- Grŵp o ofalwyr a drefnwyd gan Gofalwyr Cymru (Y Fenni)
- Grŵp o ofalwyr o Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- Grŵp o ofalwyr o Wasanaeth Cynnal Gofalwyr Bangor
- Grŵp o ofalwyr o Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru
- Grŵp o ofalwyr o Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru
- Grŵp o ofalwyr o Credu (Y Trallwng)
- Grŵp o ofalwyr o Mencap Ynys Môn
- Grŵp o ofalwyr o Ganolfan Gofalwyr Abertawe
- Grŵp o gynrychiolwyr gofalwyr di-dâl ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Grŵp o ofalwyr sy'n gweithio
- Grŵp o ofalwyr ifanc yn yr Eisteddfod
- Grŵp o ofalwyr ifanc yng Ngŵyl Gofalwyr Ifanc Cymru

Gwnaethom hefyd gyfarfod â'r sefydliadau canlynol a/neu dderbyn cyfraniadau ysgrifenedig oddi wrthynt:

| | |
|---|---|
| Adferiad | Mencap |
| Age Cymru | Mind Cymru |
| Fforwm Cymru Gyfan | MS Cymru |
| Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan | Y Comisiynydd Pobl Hŷn |
| Cymdeithas Alzheimer's | Anabledd Dysgu Cymru |
| Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain | Llais |
| Arolygiaeth Gofal Cymru | Cynrychiolwyr awdurdodau lleol |
| Rhwydwaith Gwella a Dysgu Swyddogion Gofalwyr (COLIN) | Cymdeithas Parkinson's |
| Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru | Race Equality First |
| Gofalwyr Cymru | SNAP Cymru |
| Y Comisiynydd Plant | Stonewall |
| Cymdeithas y Tsieineaid yng Nghymru | Travelling Ahead |
| Credu | Unsain a TUC Cymru |
| Dementia Carers Count | Women Connect First |
| Cymdeithas Syndrom Down | Bwrdd Cynghori ar Ofalwyr Ifanc |
| Sipsiwn a Theithwyr Cymru | Rhwydwaith Proffesiynol Gofalwyr Ifanc |
| Cynrychiolwyr byrddau iechyd | |

**Meysydd blaenoriaeth**

O ganlyniad i waith ymgysylltu â gofalwyr di-dâl a rhanddeiliaid eraill yn y sector, gwnaethom nodi'r wyth maes blaenoriaeth allweddol canlynol er mwyn adlewyrchu'r hyn y dywedodd gofalwyr wrthym sydd fwyaf pwysig.

Y themâu yw:

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn nodi wyth maes blaenoriaeth allweddol i gefnogi gofalwyr di-dâl yng Nghymru:

1. **Cydnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth:** Gwella cydnabyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol o ofalwyr di-dâl drwy wybodaeth hygyrch, allgymorth wedi'i dargedu at bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a grwpiau eraill sydd wedi'u hymyleiddio, ac e-ddysgu i staff iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg.

2. **Mynediad at wasanaethau:** Sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn deall eu hawliau a, lle y bo'n briodol, yn cael asesiadau amserol o safon o'u hanghenion a chynlluniau cymorth.

3. **Gofalwyr ifanc:** Hyrwyddo cydnabyddiaeth a chymorth i ofalwyr ifanc mewn addysg a lleoliadau cymunedol, gan gynnwys mynediad at gardiau adnabod. Asesiadau rheolaidd i sicrhau nad ydynt yn ysgwyddo gormod o faich. Hyrwyddo gwell iechyd meddwl a phrofiad a deilliannau addysgol.

4. **Caledi ariannol:** Rhoi gwybodaeth i ofalwyr di-dâl er mwyn iddynt gael cymaint o incwm â phosibl a'u hannog i hawlio budd-daliadau.

5. **Cyflogaeth â thâl:** Cymorth i ofalwyr di-dâl aros mewn cyflogaeth â thâl, neu ddychwelyd iddi, drwy hyrwyddo hawliau cyflogaeth, gweithleoedd sy'n ystyriol o ofalwyr a llwybrau cyflogaeth cynhwysol i ofalwyr.

6. **Gofal amgen (seibiant) a seibiannau oddi wrth gyfrifoldebau gofalu:** Gwella mynediad at opsiynau seibiant addas, gan gynnwys seibiannau byr, gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi bylchau a chydgynhyrchu gwelliannau â gofalwyr di-dâl.

7. **Iechyd a llesiant meddyliol:** Gwella cymorth iechyd meddwl gofalwyr drwy adolygiad lleol o grwpiau cymorth, gwasanaethau generig sy'n ystyriol o ofalwyr, a gwell ymwybyddiaeth broffesiynol.

8. **Gofalwyr a chynllunio gofal:** Cydnabod gofalwyr di-dâl fel partneriaid ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd wrth asesu'r rhai y maent yn gofalu amdanynt, cynllunio eu gofal, a'u rhyddhau o'r ysbyty.

**Asesu effaith y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl**

Mae dyletswydd arnom i ystyried effaith y strategaeth newydd ar bobl Cymru. Mae'n hanfodol ein bod yn ystyried effaith yr hyn rydym yn ei wneud mewn perthynas â hawliau plant, y Gymraeg ac ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru roi sylw dyladwy i ddileu achosion anghyfreithlon o wahaniaethu, aflonyddu ac erlid, ac i ddatblygu cyfleoedd cyfartal a meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt yn eu rhannu. Drwy'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, gwnaethom geisio deall sut y gall fod angen mathau penodol o gymorth ar bobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol, fel bod cynllun a dull cyflawni'r strategaeth yn adlewyrchu eu hanghenion ac yn ymateb iddynt.

Yn ystod haf 2025, gwnaethom glywed gan ofalwyr ag ystod eang o brofiadau. Roedd hyn yn cynnwys gofalwyr ifanc, gofalwyr hŷn, gofalwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol a gofalwyr ag anableddau synhwyraidd a dysgu. Gwnaethant ofyn inni ystyried rhwystrau yr oeddent yn eu hwynebu o ran cael gafael ar gyngor a gwybodaeth ac o ran eu cydnabod fel gofalwyr di-dâl. Mae eu gwybodaeth wedi cyfrannu at gamau gweithredu yn y strategaeth ddrafft i wella mynediad a chydnabyddiaeth a sicrhau bod cymorth yn ystyriol o ddiwylliant.

Rydym hefyd wedi defnyddio'r wybodaeth yn ein hasesiadau effaith drafft i ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol y strategaeth ar ofalwyr di-dâl yng Nghymru. Fersiynau drafft gweithio yw'r rhain a chânt eu datblygu ymhellach gan ddefnyddio eich ymatebion i'r ymgynghoriad. Caiff asesiadau effaith eu cyhoeddi ar y cyd â'r strategaeth derfynol.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Disgwylir i'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl gael effeithiau cadarnhaol o ran cydraddoldeb ledled Cymru. Fe'i datblygwyd yn unol â Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 i 2029 Llywodraeth Cymru, a'i nod yw lleihau anghydraddoldeb, gwella mynediad at gymorth ac ymgorffori dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau. Mae'r strategaeth yn ymateb i'r hyn a ddywedodd gofalwyr di-dâl a rhanddeiliaid wrthym, gan gynnwys profiadau gofalwyr ifanc, gofalwyr hŷn, gofalwyr sy'n cefnogi pobl ag anghenion cymhleth, a gofalwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Mae hefyd yn ystyried anghenion grwpiau sydd wedi'u tanwasanaethu megis gofalwyr anabl a niwrowahanol, pobl â cholled synhwyraidd, defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain, mudwyr a ffoaduriaid, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd gweledig neu aelwydydd incwm isel.

Mae gofalwyr di-dâl yn anghymesur o debygol o fod yn fenywod, ac mae menywod yn fwy tebygol o gwtogi eu horiau gwaith neu roi'r gorau i'w cyflogaeth er mwyn

darparu gofal, sy'n cael effaith ganlyniadol ar ddatblygiad eu gyrfa ac incwm yr aelwyd.

Nod yr wyth blaenoriaeth a nodir yn y strategaeth, sef gwella cydnabyddiaeth, ehangu mynediad at wybodaeth ac asesiadau, cefnogi sicrwydd ariannol, cynyddu cyfleoedd cyflogaeth a gwella mynediad at seibiant, yw lleihau anghydraddoldebau hirsefydlog o ran y profiad y mae gofalwyr yn ei gael o wasanaethau.

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar gydraddoldeb. Mae'r prif risgiau yn ymwneud ag amrywiaeth o ran gweithredu ledled Cymru, yn enwedig os bydd mynediad at wybodaeth, asesiadau, hyfforddiant neu opsiynau seibiant yn anghyson o hyd. Gellir lleihau'r risgiau hyn drwy ganllawiau cenedlaethol clir, camau i nodi gofalwyr yn well, hyfforddiant ehangach i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr, a gwaith cydgynhyrchu parhaus gyda gofalwyr di-dâl.

Mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod rhwystrau posibl a all barhau, gan gynnwys allgáu digidol, cysylltedd cyfyngedig mewn ardaloedd gwledig, a diffyg deunyddiau wedi'u cyfieithu neu fformatau hygyrch i ofalwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg.

### Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Gwnaeth gofalwyr ifanc ein helpu i ddatblygu Asesiad drafft o'r Effaith ar Hawliau Plant drwy sesiynau ymgysylltu, cynrychiolaeth yng Ngrŵp Cynghori'r Gweinidog ac adborth a gasglwyd ledled Cymru, gan dynnu sylw at faterion megis cydnabyddiaeth mewn ysgolion, pwysau emosiynol, cymorth iechyd meddwl a chaledi ariannol.

Mae'r asesiad yn nodi risgiau allweddol, gan gynnwys camau i nodi gofalwyr gan wasanaethau, mynediad at seibiant, rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol a'r potensial i blant ymgymryd â rolau gofalu amhriodol. Mae'r risgiau hyn yn berthnasol i hawliau plant fel y'u diffinnir gan [Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#).

Mewn ymateb, mae'r strategaeth yn nodi camau gweithredu gyda'r bwriad o gryfhau prosesau i gydnabod a chefnogi gofalwyr ifanc. Nod camau gweithredu yn y strategaeth yw sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael eu cydnabod, eu diogelu a'u cefnogi; tra bydd prosesau monitro a chynlluniau cyflenwi yn y dyfodol yn ceisio mynd i'r afael â risgiau o ran gweithredu a hyrwyddo cymorth mwy cyson ledled Cymru.

### Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Mae'r strategaeth ddrafft wedi cael ei llunio yng nghyd-destun Safonau'r Gymraeg a fframwaith strategol Mwy na Geiriau. Pan fydd pobl yn cael gofal neu'n ceisio cael gafael arno, bydd hyn fel arfer yn digwydd pan fyddant yn teimlo fwyaf agored i niwed, felly mae bod yn hyderus yn eu hiaith eu hunain yn bwysig. Mae Cymru yn wlad ddwyieithog lle mae i'r Gymraeg statws swyddogol. Mae Safonau'r Gymraeg wedi'u rhwymo mewn cyfraith ac fe'u gosodwyd ar gyrff iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r

safonau hyn yn ategu Mwy na Geiriau, sef ein cynllun i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae egwyddor 'y Cynllun Rhagweithiol' wrth wraidd Mwy na Geiriau ac mae'n rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach na bod y claf / defnyddiwr y gwasanaeth yn gorfod gofyn amdanynt. Ein gweledigaeth ar gyfer Mwy na Geiriau yw i'r Gymraeg berthyn a chael ei hymgorffori mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru, fel bod unigolion yn cael gofal sy'n diwallu eu hanghenion iaith, gan arwain at ganlyniadau gwell, heb orfod gofyn amdano.

Mae'r Asesiad drafft o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi bod y Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ofalwyr sy'n siarad Cymraeg drwy gryfhau mynediad at wybodaeth, gwasanaethau a chymorth dwyieithog. Mae'r strategaeth yn gyson â deddfwriaeth a fframweithiau allweddol, megis Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Cymraeg 2050, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a fframwaith Mwy na Geiriau, gan helpu i ymgorffori'r Cynnig Rhagweithiol a sicrhau bod gofalwyr yn cael cymorth yn yr iaith a ffefrir ganddynt.

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r strategaeth hon ac rydym wedi ystyried risgiau posibl i sicrhau y cânt eu rheoli'n briodol drwy'r broses weithredu. Ar draws yr wyth maes blaenoriaeth, mae'r strategaeth yn atgyfnerthu camau i nodi anghenion iaith gofalwyr yn gynnar, yn unol â gofynion y Cynnig Rhagweithiol, gyda phartneriaid cyflenwi, mewn meysydd megis iechyd meddwl, seibiant, arweiniad ariannol, cyngor ar gyflogaeth a chynllunio gofal. Disgwylir y bydd yn cryfhau argaeledd mynediad at wybodaeth a chyngor a chymorth yn Gymraeg i ofalwyr ifanc mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Er bod risgiau o hyd mewn perthynas ag amrywiadau rhanbarthol a chapsiti cyflenwi'r rhai sy'n gweithio gyda gofalwyr di-dâl, gellir lliniaru'r rhain drwy gyfrifoldebau partneriaid cyflenwi i gynnal Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol.  Bydd yr ymatebion a gesglir yn ystod yr ymgynghoriad hwn yn ein helpu i nodi unrhyw effeithiau pellach a byddant yn llywio'r strategaeth derfynol.

**Ymateb i'r Ymgynghoriad**

**Canllawiau**

Mae'r cwestiynau isod yn ymwneud â'r strategaeth ddrafft a'r wybodaeth am asesiadau effaith a ddarperir.

**Adran Un** - Mae'r Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn ddogfen ar wahân sydd ar gael gyda'r ddogfen ymgynghori hon a bydd yn llywio eich ymatebion i'r cwestiynau yn yr adran hon.

**Adran Dau** - Caiff gwybodaeth am ein hasesiadau effaith ei dyblygu isod a bydd yn llywio eich ymatebion i'r cwestiynau yn yr adran hon.

**Cwestiwn Olaf** – Mae hwn yn gyfle ichi rannu unrhyw beth â ni nad yw wedi cael ei drafod yn y cwestiynau blaenorol yn eich barn chi.

**Noder, nid yw'n ofynnol i chi ateb bob cwestiwn.**

**Gwybodaeth bersonol**

| **Cyfrinachedd** |
|---|
| Mae’n bosibl y caiff ymatebion i ymgyngoriadau eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.<br><br>**Pe bai’n well gennych i’ch ymateb gael ei gadw’n gyfrinachol, ticiwch y ☐ :** |

| |
|---|
| Eich enw: |
| Eich sefydliad (os yw’n berthnasol): |
| Manylion cyswllt/cyfeiriad e-bost |
| Eich diddordeb yn y strategaeth;<br><br>• Gofalwr di-dâl<br>• Cyn ofalwr di-dâl<br>• Aelod o'r cyhoedd (nid gofalwr di-dâl)<br>• Gweithiwr proffesiynol yn ymateb fel unigolyn<br>• Ymateb sefydliadol<br>• Mae'n well gennyf beidio â dweud<br>. |
| Pa fersiwn o’r ddogfen ymgynghori rydych chi wedi edrych arni? **Ticiwch bob un sy’n berthnasol.**<br><br>• Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl<br>• Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl – fersiwn Iaith Arwyddion Prydain<br>• Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl – fersiwn Hawdd ei Deall<br>• Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl – Crynodeb i Bobl Ifanc |

**Adran Un**

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn nodi wyth maes blaenoriaeth allweddol i gefnogi gofalwyr di-dâl yng Nghymru;

1. **Cydnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth:** Gwella cydnabyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol o ofalwyr di-dâl drwy wybodaeth hygyrch, allgymorth wedi'i dargedu at bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a grwpiau eraill sydd wedi'u hymyleiddio, ac e-ddysgu i staff iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg.

2. **Mynediad at wasanaethau:** Sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn deall eu hawliau a, lle y bo'n briodol, yn cael asesiadau amserol o safon o'u hanghenion a chynlluniau cymorth.

3. **Gofalwyr ifanc:** Hyrwyddo cydnabyddiaeth a chymorth i ofalwyr ifanc mewn addysg a lleoliadau cymunedol, gan gynnwys mynediad at gardiau adnabod. Asesiadau rheolaidd i sicrhau nad ydynt yn ysgwyddo gormod o faich. Hyrwyddo gwell iechyd meddwl a phrofiad a deilliannau addysgol.

4. **Caledi ariannol:** Rhoi gwybodaeth i ofalwyr di-dâl er mwyn iddynt gael cymaint o incwm â phosibl a'u hannog i hawlio budd-daliadau.

5. **Cyflogaeth â thâl:** Cymorth i ofalwyr di-dâl aros mewn cyflogaeth â thâl, neu ddychwelyd iddi, drwy hyrwyddo hawliau cyflogaeth, gweithleoedd sy'n ystyriol o ofalwyr a llwybrau cyflogaeth cynhwysol i ofalwyr.

6. **Gofal amgen (seibiant) a seibiannau oddi wrth gyfrifoldebau gofalu:** Gwella mynediad at opsiynau seibiant addas, gan gynnwys seibiannau byr, gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi bylchau a chydgynhyrchu gwelliannau â gofalwyr di-dâl.

7. **Iechyd a llesiant meddyliol:** Gwella cymorth iechyd meddwl gofalwyr drwy adolygiad lleol o grwpiau cymorth, gwasanaethau generig sy'n ystyriol o ofalwyr, a gwell ymwybyddiaeth broffesiynol.

8. **Gofalwyr a chynllunio gofal:** Cydnabod gofalwyr di-dâl fel partneriaid ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd wrth asesu'r rhai y maent yn gofalu amdanynt, cynllunio eu gofal, a'u rhyddhau o'r ysbyty.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno mai'r wyth blaenoriaeth a amlinellir yn y strategaeth ddrafft ar dudalen 1 yw'r blaenoriaethau cywir?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod/ ansicr

**Cwestiwn 2: A oes unrhyw beth yr hoffech ei rannu am unrhyw un o'r blaenoriaethau a restrir yn y strategaeth?** Gallwch wneud sylwadau ar gynifer neu gyn lleied ag y dymunwch.

| | **Maes blaenoriaeth** | Sylwadau/ Adborth: |
|---|---|---|
| **1.** | Cydnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth | |
| **2.** | Mynediad at wasanaethau | |
| **3.** | Gofalwyr ifanc | |
| **4.** | Caledi ariannol | |
| **5.** | Cyflogaeth â thâl | |
| **6.** | Gofal amgen (seibiant) a seibiannau byr oddi wrth gyfrifoldebau gofalu | |
| **7.** | Iechyd meddwl a llesiant meddyliol | |
| **8.** | Gofalwyr a chynllunio gofal | |

**Cwestiwn 3:** A oes gennych unrhyw sylwadau pellach, neu a oes unrhyw flaenoriaethau eraill y dylent fod wedi cael eu cynnwys yn y strategaeth yn eich barn chi?

**Cwestiwn 4:** Mae camau gweithredu o dan bob maes blaenoriaeth. Caiff y rhain eu rhestru ar dudalennau 7-23 o ddogfen y strategaeth ddrafft. A oes unrhyw beth yr hoffech ei ddweud am unrhyw rai o'r camau gweithredu hyn? **Gallwch wneud sylwadau ar gynifer neu gyn lleied ag y dymunwch.**

| | **Maes blaenoriaeth** | Sylwadau/ Adborth: |
|---|---|---|
| **1.** | Cydnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth | |
| **2.** | Mynediad at wasanaethau | |
| **3.** | Gofalwyr ifanc | |
| **4.** | Caledi ariannol | |
| **5.** | Cyflogaeth â thâl | |
| **6.** | Gofal amgen (seibiant) a seibiannau byr oddi wrth gyfrifoldebau gofalu | |
| **7.** | Iechyd meddwl a llesiant meddyliol | |
| **8.** | Gofalwyr a chynllunio gofal | |

**Cwestiwn 5:** A oes gennych unrhyw sylwadau pellach, neu a oes unrhyw gamau gweithredu eraill y dylent fod wedi cael eu cynnwys yn y strategaeth yn eich barn chi?

**Cwestiwn 6:** A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â sut y gallwn sicrhau fod y strategaeth yn parhau i adlewyrchu profiad a blaenoriaethau gofalwyr di-dâl?

**Cwestiwn 7**: A ellid gwneud mwy i wella gwaith partneriaeth ar draws sefydliadau sy'n ymwneud â chefnogi gofalwyr di-dâl yn eich barn chi?

- Gellid
- Na ellid
- Ddim yn siŵr

**Os gellid, beth arall y gellid ei wneud yn eich barn chi?**

**Adran 2**

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Disgwylir i'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl gael effeithiau cadarnhaol o ran cydraddoldeb ledled Cymru. Fe'i datblygwyd yn unol â Chynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 i 2029 Llywodraeth Cymru, a'i nod yw lleihau anghydraddoldeb, gwella mynediad at gymorth ac ymgorffori dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau. Mae'r strategaeth yn ymateb i'r hyn a ddywedodd gofalwyr di-dâl a rhanddeiliaid wrthym, gan gynnwys profiadau gofalwyr ifanc, gofalwyr hŷn, gofalwyr sy'n cefnogi pobl ag anghenion cymhleth, a gofalwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Mae hefyd yn ystyried anghenion grwpiau sydd wedi'u tanwasanaethu megis gofalwyr anabl a niwrowahanol, pobl â cholled synhwyraidd, defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain, mudwyr a ffoaduriaid, cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd gweledig neu aelwydydd incwm isel.

Mae gofalwyr di-dâl yn anghymesur o debygol o fod yn fenywod, ac mae menywod yn fwy tebygol o gwtogi eu horiau gwaith neu roi'r gorau i'w cyflogaeth er mwyn darparu gofal, sy'n cael effaith ganlyniadol ar ddatblygiad eu gyrfa ac incwm yr aelwyd.

Nod yr wyth blaenoriaeth a nodir yn y strategaeth, sef gwella cydnabyddiaeth, ehangu mynediad at wybodaeth ac asesiadau, cefnogi sicrwydd ariannol, cynyddu cyfleoedd cyflogaeth a gwella mynediad at seibiant, yw lleihau anghydraddoldebau hirsefydlog o ran y profiad y mae gofalwyr yn ei gael o wasanaethau.

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar gydraddoldeb. Mae'r prif risgiau yn ymwneud ag amrywiaeth o ran gweithredu ledled Cymru, yn enwedig os bydd mynediad at wybodaeth, asesiadau, hyfforddiant neu opsiynau seibiant yn anghyson o hyd. Gellir lleihau'r risgiau hyn drwy ganllawiau cenedlaethol clir, camau i nodi gofalwyr yn well, hyfforddiant ehangach i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr, a gwaith cydgynhyrchu parhaus gyda gofalwyr di-dâl.

Mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod rhwystrau posibl a all barhau, gan gynnwys allgáu digidol, cysylltedd cyfyngedig mewn ardaloedd gwledig, a diffyg deunyddiau wedi'u cyfieithu neu fformatau hygyrch i ofalwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg.

---

**Cwestiwn 8:** Ar ôl darllen y Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, beth yw'r effeithiau cadarnhaol posibl ar ofalwyr di-dâl â nodweddion gwarchodedig yn eich barn chi, fel y'u cwmpesir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

Mae nodweddion gwarchodedig yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 9:** Pa heriau neu risgiau i ofalwyr di-dâl â nodweddion gwarchodedig y dylem eu hystyried yn fanylach yn eich barn chi wrth lunio fersiwn derfynol y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl?

| |
|---|
| |

**Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

Gwnaeth gofalwyr ifanc ein helpu i ddatblygu Asesiad drafft o'r Effaith ar Hawliau Plant drwy sesiynau ymgysylltu, cynrychiolaeth yng Ngrŵp Cynghori'r Gweinidog ac adborth a gasglwyd ledled Cymru, gan dynnu sylw at faterion megis cydnabyddiaeth mewn ysgolion, pwysau emosiynol, cymorth iechyd meddwl a chaledi ariannol.

Mae'r asesiad yn nodi risgiau allweddol, gan gynnwys camau i nodi gofalwyr gan wasanaethau, mynediad at seibiant, rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol a'r potensial i blant ymgymryd â rolau gofalu amhriodol. Mae'r risgiau hyn yn berthnasol i hawliau plant fel y'u diffinnir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mewn ymateb, mae'r strategaeth yn nodi camau gweithredu gyda'r bwriad o gryfhau prosesau i gydnabod a chefnogi gofalwyr ifanc. Nod camau gweithredu yn y strategaeth yw sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael eu cydnabod, eu diogelu a'u

cefnogi; tra bydd prosesau monitro a chynlluniau cyflenwi yn y dyfodol yn ceisio mynd i'r afael â risgiau o ran gweithredu a hyrwyddo cymorth mwy cyson ledled Cymru.

**Cwestiwn 10:** Ar ôl darllen y Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, beth yw'r effeithiau cadarnhaol posibl ar ofalwyr ifanc a'u hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn eich barn chi?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 11:** Pa heriau neu risgiau i ofalwyr ifanc a'u hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn y dylem eu hystyried yn fanylach yn eich barn chi wrth lunio fersiwn derfynol y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl?

| |
|---|
| |

**<u>Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg</u>**

Mae'r strategaeth ddrafft wedi cael ei llunio yng nghyd-destun Safonau'r Gymraeg a fframwaith strategol Mwy na Geiriau. Pan fydd pobl yn cael gofal neu'n ceisio cael gafael arno, bydd hyn fel arfer yn digwydd pan fyddant yn teimlo fwyaf agored i niwed, felly mae bod yn hyderus yn eu hiaith eu hunain yn bwysig. Mae Cymru yn wlad ddwyieithog lle mae i'r Gymraeg statws swyddogol. Mae Safonau'r Gymraeg wedi'u rhwymo mewn cyfraith ac fe'u gosodwyd ar gyrff iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r safonau hyn yn ategu Mwy na Geiriau, sef ein cynllun i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae egwyddor 'y Cynllun Rhagweithiol' wrth wraidd Mwy na Geiriau ac mae'n rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach na bod y claf / defnyddiwr y gwasanaeth yn gorfod gofyn amdanynt. Ein gweledigaeth ar gyfer Mwy na Geiriau yw i'r Gymraeg berthyn a chael ei hymgorffori mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru, fel bod unigolion yn cael

gofal sy'n diwallu eu hanghenion iaith, gan arwain at ganlyniadau gwell, heb orfod gofyn amdano.

Mae'r Asesiad drafft o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi bod y Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ofalwyr sy'n siarad Cymraeg drwy gryfhau mynediad at wybodaeth, gwasanaethau a chymorth dwyieithog. Mae'r strategaeth yn gyson â deddfwriaeth a fframweithiau allweddol, megis Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Cymraeg 2050, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a fframwaith Mwy na Geiriau, gan helpu i ymgorffori'r Cynnig Rhagweithiol a sicrhau bod gofalwyr yn cael cymorth yn yr iaith a ffefrir ganddynt.

Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r strategaeth hon ac rydym wedi ystyried risgiau posibl i sicrhau y cânt eu rheoli'n briodol drwy'r broses weithredu.  Ar draws yr wyth maes blaenoriaeth, mae'r strategaeth yn atgyfnerthu camau i nodi anghenion iaith gofalwyr yn gynnar, yn unol â gofynion y Cynnig Rhagweithiol, gyda phartneriaid cyflenwi, mewn meysydd megis iechyd meddwl, seibiant, arweiniad ariannol, cyngor ar gyflogaeth a chynllunio gofal. Disgwylir y bydd yn cryfhau argaeledd mynediad at wybodaeth a chyngor a chymorth yn Gymraeg i ofalwyr ifanc mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Er bod risgiau o hyd mewn perthynas ag amrywiadau rhanbarthol a chapsiti cyflenwi'r rhai sy'n gweithio gyda gofalwyr di-dâl, gellir lliniaru'r rhain drwy gyfrifoldebau partneriaid cyflenwi i gynnal Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol.  Bydd yr ymatebion a gesglir yn ystod yr ymgynghoriad hwn yn ein helpu i nodi unrhyw effeithiau pellach a byddant yn llywio'r strategaeth derfynol.

**Cwestiwn 12:** Ar ôl darllen y Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, beth yw'r effeithiau cadarnhaol posibl ar y Gymraeg yn eich barn chi? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 13:** Pa heriau neu risgiau i'r Gymraeg y dylem eu hystyried yn fanylach yn eich barn chi wrth lunio fersiwn derfynol y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn Olaf**

**Cwestiwn 14:** Gan feddwl am yr ymgynghoriad hwn yn gyffredinol, a oes unrhyw faterion nad ydym wedi ymdrin â nhw sy'n berthnasol yn eich barn chi? Os felly, rhowch fanylion yn y bwlch isod.

| |
|---|
| |

Diolch yn fawr iawn am roi o'ch amser i gwblhau'r ymgynghoriad hwn.